Bannau Brycheiniog

**NODYN CANLLAW DATGELU METEL AC ARCHAEOLEG**

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Swyddog Treftadaeth (Archeoleg) Bannau Brycheiniog

2018 (diweddaru 2020, 2024).

*Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei warchod am ei gefn gwlad hardd, ei fywyd gwyllt a'i dreftadaeth ddiwylliannol. Bwriad y ddogfen ganllaw hon yw cynorthwyo Awdurdod y Parc Cenedlaethol i reoli'r tirwedd hanesyddol a darparu cyngor i bobl sy'n gofyn am ganiatâd i ddefnyddio datgelyddion metel yn y Parc Cenedlaethol.*

*Mae'n annhebyg y bydd caniatâd i ddefnyddio datgelyddion metel yn cael ei roi ar dir ym mherchnogaeth yr Awdurdod, oni bai fod hynny'n rhan o raglen ymchwil archeolegol achrededig ac o dan oruchwyliaeth.*

## 1. Amcanion Cadwraeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

1.1. Diben Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y tirwedd arbennig hwn a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig.

1.2. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi llofnodi'r 'Ddatganiad ar y Cyd ar Gynllun Gweithredu'r Amgylchedd Hanesyddol', sy'n anelu at ddiffinio egwyddorion cyffredin ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy ym mhob un o Barciau Cenedlaethol y DU a sicrhau fod rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy yn cael ei gyfuno'n llawn i holl agweddau o reoli tirweddau Parciau Cenedlaethol. Mae hynny'n cynnwys Amcan III, Gweithred II: Gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau, asiantaethau a sefydliadau perthnasol i fonitro, cofnodi ac ymchwilio i achosion o droseddu ac ymddygiad gwrth gymdeithasol - 'Trosedd Treftadaeth'.

## 2. Datgelyddion Metel ac Archeoleg

2.1. Mae llawer o bobl yn defnyddio datgelyddion metel i chwilio am wrthrychau archeolegol sydd wedi'u claddu. O'u defnyddio'n gyfrifol, mewn rhaglenni ymchwil archeolegol a gwaith maes strwythuredig, gallai datgelyddion metel hwyluso darganfyddiadau a bod yn ychwanegiad gwerthfawr at becyn gwaith archeolegol. Fodd bynnag, gallai eu defnyddio'n anghyfrifol aflonyddu ar gyd-destun darganfyddiadau archeolegol a gallai peidio ag adnabod, cofnodi ac adrodd ar ddarganfyddiadau arwain at golli gwybodaeth archeolegol am byth.

2.2. Mae yna gyfyngiadau ar ddefnyddio datgelyddion metel ar dir preifat a chyhoeddus. Mae'n anghyfreithlon, bob tro, defnyddio datgelyddion metel ar unrhyw dir heb ganiatâd y tirfeddiannwr.

2.3. Mae yna gyfyngiadau eraill ar eu defnyddio yn yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys:

- Gwaharddiad ar ddefnyddio datgelyddion metel ar Henebion yng Nghymru, heb ganiatâd Cadw. Bydd unrhyw un sy'n defnyddio datgelyddion metel ac yn symud gwrthrychau o Henebion heb ganiatâd yn troseddu o dan Ddeddf Ardaloedd Archeolegol a Henebion 1979, fel y'i diwygiwyd a'i diweddaru gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Gallai hynny hefyd fod yn ddifrod troseddol a lladrad[1].

- Gwaharddiad ar ddefnyddio datgelyddion metel ar dir mynediad[2].

- Mae defnyddio datgelyddion metel yn groes i Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth.

- Mae angen trwydded i ddarganfod metel ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol[3]. Mae'n rhaid i geisiadau am drwydded gynnwys dyluniad y prosiect sydd wedi'i gytuno gydag Arecheolegydd[4] perthnasol yr Ymddiriedolaeth.

- Gallai fod yna gyfyngiadau hefyd ar ddarganfod metel ar rai safleoedd. Gallai hynny gynnwys tir o dan Stiwardiaeth Cefn Gwlad neu gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill[5]. Gellir cael manylion y cyfyngiadau o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y tirfeddiannwr / deilydd, eich Swyddog Cyswllt Darganfyddiadau neu Gofnodion Amgylcheddol Hanesyddol neu http://cadw.gov.wales.

- Mae paradmedrau cyfreithiol eraill yn cynnwys Deddf Gwarchod Olion Milwrol 1986[6], Deddf Trysor 1996 (ymestynnwyd yn 2003) a Deddf Gladdu 1857.

- Mae rhai safleoedd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig am eu diddordeb biolegol neu ddaearegol. Mae'n rhaid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau a allai niweidio diddordeb arbennig y safle[7].

## 3. Canllawiau ar gyfer defnyddio Datgelyddion Metel yn gyfrifol:

3.1. Mae'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy yn gôd ymarfer ar gyfer datguddio metel yn gyfrifol yng Nghymru a Lloegr (2017). Mae'r côd hwn wedi'i gymeradwyo gan Amgueddfa Cymru / Cynllun Henebion Cludadwy Cymru, Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol, Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr, Cyngor Archeoleg Prydain a'r Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ymysg eraill. Mae ar gael ar: https://finds.org.uk/getinvolved/guides/codeofpractice [ymwelwyd 05/06/18].

3.2. Ffallai fod gan glybiau datgelu metel annibynnol eu côd ymarfer eu hunain. Mae gan Gyngor Cenedlaethol Datgelu Metel (www.ncmd.co.uk) a Ffederasiwn Datgelyddion Annibynnol (www.fid.newbury.net) hefyd Gôd Ymddygiad y mae'n rhaid i'w haelodau ei ddilyn fel amod o aelodaeth.

3.3. Mae dogfen ganllaw ar gyfer tirfeddianwyr wedi'i datblygu gan y Grŵp Ymgynghorol Henebion Cludadwy ac mae ar gael yma: https://finds.org.uk/documents/file/Landowner%20leaflet%20FINAL.pdf

## 4. Argymhellion:

4.1. Mae'n annhebyg y bydd caniatâd i ddefnyddio datgelyddion metel yn cael ei roi ar dir ym mherchnogaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol, oni bai ei fod yn rhan o raglen ymchwil archeolegol achrededig ac o dan oruchwyliaeth.

4.2. Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol annog tirfeddianwyr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gymryd agwedd debyg

## 5. Cyngor i Ddatgelwyr Metel yn gofyn am ganiatâd

5.1. Mae'n annhebyg y bydd caniatâd i ddefnyddio datgelyddion metel yn cael ei roi ar dir ym mherchnogaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol, oni bai ei fod yn rhan o raglen ymchwil archeolegol achrededig ac o dan oruchwyliaeth.

5.2. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dymuno datgelu metel ar dir preifat ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ofyn am, a chael caniatâd gan, y tirfeddiannwr cyn dechrau. Argymhellir yn gryf bod unigolion yn gofyn am ganiatâd yn dod yn gyfarwydd â:

- Y Cynllun Henebion Cludadwy https://funds.org.uk/
- Côd Ymarfer Cynllun Henebion Cludadwy ar gyfer Darganfod Metel yn Gyfrifol yng Nghymru a Lloegr, 2017: https://finds.org.uk/getinvolved/guides/codeofpractice
- Manylion cyswllt eich Swyddfa Cydlynu Darganfyddiadau Lleol, gellir eu cael oddi wrth y Cynllun Henebion Cludadwy: Ar lein https://finds.org.uk/contacts, ebost info@finds.org.uk, ffôn 020 7323 8611.
- Ac i ganfod rhagor ynghylch darganfod metel a chlybiau lleol, trwy'r Cyngor Cenedlaethol Darganfod Metel neu (www.ncmd.co.uk) Ffederasiwn Datgelwyr Annibynnol (www.fid.org.uk).

**Troednodiadau**

1. Troseddau Treftadaeth: http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/heritage_crime/?lang=en [Ymwelwyd 3/1/25]
2. Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ATODLEN 2, Adran 2 Cyfyngiadau i'w dilyn gan rai sy'n ymarfer hawliau mynediad. Paragraff k: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/schedule/2/enacted [Ymwelwyd 06/04/18]
3. Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth: Offeryn Statudol 1982 Rhif 648, Adran 5.ix:
4. Darganfod Metel ar Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: https://www.nationaltrust.org.uk/features/metal-detecting-on-our-land [Ymwelwyd 05/06/18].
5. Llyfryn rheolau uwch Glastir: https://beta.gov.wales/glastir-advanced-2018-rules-booklets [Ymwelwyd 24/04/18]
6. Deddf Gwarchod Olion Milwrol 1986: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1986/35/contents [Ymwelwyd 06/04/18]
7. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, pam eu bod wedi'u dynodi, beth yw cyfrifoldebau tirfeddianwyr a ble maen nhw ar gael yma https://bit.ly/2JfihUN

**Cyfeiriadau:**

Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/ Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015 – 20: http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/BBNP_Management-Plan-PROOF-03-03-16-English.pdf

Llyfryn Cadw 'Beth yw Cofrestru': http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/What_is_Scheduling_EN.pdf

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/schedule/2

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents

Cynllun Henebion Cludadwy, 2010. Canllawiau ar gyfer tirfeddiannwr, meddianwyr a thenantiaid amaethyddol yng Nghymru a Lloegr: https://finds.org.uk/getinvolved/guides/guidancelandowners

Cynllun Henebion Cludadwy, 2017: Cod Ymarfer ar gyfer Darganfod Metel yn Gyfrifol yng Nghymru a Lloegr: https://finds.org.uk/getinvolved/guides/codeofpractice

Parciau Cenedlaethol y DU, 2018: Datganiad ar y cyd ar yr Amgylchedd Hanesyddol ym Mharciau Cenedlaethol Cymru, Lloegr a'r Alban, Cynllun Gweithredu 2018 – 2023.